# Rhan 5 – Materion ar ôl penodi

## Egwyddorion arweiniol

Mae Rhan 5 o'r Cyfarwyddiadau yn berthnasol i Bwyllgorau Ymgynghorol Ymddygiad yn unig

5.1. Yr Arglwydd Brif Ustus, fel Pennaeth y Farnwriaeth, sy'n gyfrifol am benderfynu lle bydd deiliaid swyddi barnwrol yn cael eu lleoli. Mae'r Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch Farnwr Llywyddol yn dibynnu ar Bwyllgorau Ymgynghorol i sicrhau bod y Cyfarwyddiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith.

5.2. Pan fydd angen rhoi sylw ar unwaith i faterion yr ymdrinnir â hwy ar lefel Pwyllgorau Ymgynghorol, y Cadeirydd, neu aelod o'r Pwyllgor a enwebir i weithredu ar ran y Cadeirydd, ddylai ymdrin â hwy. Yn unol â hynny, dylai Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol ddwyn y mater i sylw'r Cadeirydd neu'r aelod enwebedig ar unwaith.

5.3. Caiff y swyddogaethau gweinyddol a gyflawnir gan Bwyllgor Ymgynghorol eu cyflawni gan yr Ysgrifennydd, neu gan swyddogion a enwebwyd i weithredu ar ran yr Ysgrifennydd.

## Addasiadau rhesymol

5.4. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, gall unrhyw ynad wneud cais am addasiadau rhesymol, megis offer arbenigol neu addasiadau i adeiladau llys, i'w cynorthwyo i gyflawni dyletswyddau ynad.

5.5. Dylid cyflwyno ceisiadau am addasiadau rhesymol yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol.

5.6. Bydd yr Ysgrifennydd yn asesu ymarferoldeb darparu'r addasiadau hynny ac yn ystyried pa drefniadau y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi'r ynad i gyflawni eu dyletswyddau.

5.7. Rhaid i'r rhagdybiaeth bob amser fod o blaid dod o hyd i ffyrdd i allu darparu addasiadau. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol fod mor hyblyg â phosibl wrth ystyried sut y gellir cyflawni hynny, er enghraifft, ystyried y posibilrwydd o leoli'r ynad ar fainc arall os nad oes modd gwneud addasiadau i adeilad y llys.

5.8. Pan na ellir darparu'r addasiad rhesymol gofynnol (e.e. oherwydd nad oes modd addasu adeilad y llys), dylid cael trafodaeth gyda'r ynad ynghylch yr opsiynau sydd ar gael i ddod o hyd i ateb addas i'r cais.

## Gofynion eistedd

5.9. Mae'r adran hon yn nodi Cyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor ar ba mor aml y dylai ynadon eistedd a sut y dylid cyfrif presenoldeb. Mae hyn

yn rhan o rôl yr Arglwydd Ganghellor fel gweinidog y llywodraeth sy'n gyfrifol am system y llysoedd, a'i gyfrifoldeb ar y cyd â'r Arglwydd Brif Ustus i sicrhau bod y farnwriaeth yn adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas.

**Rheoli eisteddiadau**

5.10. Cadeiryddion Meinciau sy'n gyfrifol am reoli eisteddiadau ynadon. Mae hyn yn cynnwys trafod gydag ynadon pan fydd pryderon ynghylch eisteddiadau isel neu uchel gyda'r nod o ddatrys materion, a chymryd camau priodol, megis darparu gofal bugeiliol neu hyfforddiant. Mater i'r Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad yw penderfynu a fyddai'n briodol cynnal ymchwiliad i ymddygiad ynad.

5.11. I sicrhau bod Pwyllgorau Ymgynghorol yn ymwybodol o lefelau a thueddiadau eistedd, rhaid i Gadeiryddion Meinciau baratoi adroddiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth benodol. Dylai'r adroddiad gynnwys:

- gwybodaeth am ynadon sydd heb eistedd digon o weithiau neu sydd wedi eistedd gormod o weithiau yn ôl y gofynion eistedd gofynnol;
- esboniad am unrhyw benderfyniadau/camau a gymerwyd gan Gadeirydd y Fainc;
- manylion yr ynadon hynny y maent wedi rhoi caniatâd i fod yn absennol iddynt.

Y Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch unrhyw gamau i'w cymryd.

5.12. Ar ôl cael atgyfeiriad gan Gadeirydd y Fainc, gall y Pwyllgor Ymgynghorol benderfynu pa gamau, os o gwbl, sydd angen cymryd. Gall y Pwyllgor Ymgynghorol benderfynu gwneud y canlynol:

- Penderfynu p'un a ddylai Cadeirydd y Fainc ddelio â'r mater fel mater bugeiliol neu hyfforddiant;
- Ystyried a ddylid gofyn i GLITEF wneud newidiadau i'r rota; neu
- Cynnal ymchwiliad o dan Reolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014.

**Isafswm eistedd**

5.13. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn derbyn mai gwirfoddolwyr yw ynadon a bod ganddynt ymrwymiadau personol a gwaith eraill yn ogystal â'u hymrwymiadau fel ynad. Gall hyn olygu mai dim ond am y lleiafswm o 13 diwrnod neu 26 hanner diwrnod y gall llawer o ynadon eistedd mewn blwyddyn[1]. Gall hyn fod yn ymrwymiad mawr ar eu rhan a gall gyfrannu at gyfansoddiad amrywiol y fainc.

---

[1] Fel arfer gofynnir i ynadon eistedd am ddiwrnod llawn yn hytrach na hanner diwrnodau, er mwyn hwyluso rheolaeth y llys. Gall ynadon ofyn am gael eistedd am hanner diwrnodau os oes angen i'w galluogi i fodloni eu gofyniad eistedd lleiaf a dylid gwneud trefniadau i hwyluso hyn.

5.14 Pennir cyfanswm diwrnodau eistedd unrhyw ardal leol drwy ystyried y llwyth gwaith a'r adnoddau sydd ar gael yn y llys, nid yr angen i gynnal eisteddiadau ynadon.

5.15 Pan na all ynad gyflawni'r lleiafswm o 13 diwrnod eistedd mewn blwyddyn heb reswm da, dylent ymddiswyddo o'r Rhestr Weithredol yn unol â'r datganiad ac ymgymeriad a lofnodwyd ganddynt adeg eu penodi.

5.16 Y dewis arall fyddai i'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus ystyried rhoi sancsiwn i'r ynad, a bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn delio â'r mater yn unol â Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014.

5.17 Dylai ynadon sy'n eistedd yn y llys oedolion ac yn naill ai y llys ieuenctid neu'r llys teulu eistedd am o leiaf **15 hanner diwrnod** ym mhob awdurdodaeth, i gyflawni'r lleiafswm gofynnol o **30 hanner diwrnod** y flwyddyn (er fel rheol bydd y rhain yn eisteddiadau diwrnod llawn), cyn belled bod digon o waith. Os na all ynad eistedd am 15 hanner diwrnod yn y llys ieuenctid neu'r llys teulu, dylent eistedd am fwy na 15 hanner diwrnod yn y llys oedolion fel eu bod wedi eistedd am gyfanswm o 30 hanner diwrnod gyda'i gilydd ar yr amod bod hynny'n bodloni anghenion busnes y llys oedolion.

5.18 Os na all ynad fodloni'r gofyniad eistedd lleiaf oherwydd diffyg cyfleoedd i eistedd, nid yw hynny ynddo'i hun yn rheswm i ddiswyddo'r ynad.

### Uchafswm eistedd

5.19 Ni ddylai ynadon sy'n eistedd mewn un awdurdodaeth yn unig eistedd am fwy na **35 diwrnod** y flwyddyn. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn ystyried **50 diwrnod eistedd** bob blwyddyn fel yr uchafswm priodol ar gyfer y rhai sy'n eistedd mewn mwy nag un awdurdodaeth.

5.20 Weithiau gall fod yn ddefnyddiol i Gadeirydd y Fainc, mewn capasiti bugeiliol, dynnu sylw'r ynad dan sylw at y rheolau ynghylch uchafswm eistedd. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol iddynt ysgrifennu at ynadon unigol ynghylch lefelau uchel o eisteddiadau sy'n deillio o swyddogion llys yn gofyn iddynt eistedd.

### Cynnydd dros dro i'r uchafswm diwrnodau eistedd

5.21 Mewn ardaloedd lle nad oes digon o ynadon i fodloni anghenion busnes y llys, gellir cynyddu'r uchafswm dros dro i 100 diwrnod eistedd ar gyfer y rhai sy'n eistedd mewn mwy nag un awdurdodaeth.

5.22 Dylai'r penderfyniad hwn gael ei wneud ar y cyd gan y Pennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol (neu eu dirprwy) a Chadeirydd y Fainc. Dylid ymgynghori â Chadeirydd(ion) unrhyw banel(au) teulu perthnasol a'r Barnwr Teulu Dynodedig cyn gwneud penderfyniad ynghylch ynadon teulu.

5.23 Rhaid adolygu'r terfyn uwch yn gyson a dylai ond fod yn weithredol cyhyd ag y bo ei angen i ddiwallu anghenion y busnes.

### Eisteddiadau diwrnod llawn/hanner diwrnod

5.24 I helpu sicrhau bod busnes barnwrol yn cael ei gwblhau'n gyflym ac yn effeithlon, bydd eisteddiadau yn y llys ynadon bron bob tro yn cael eu trefnu ar sail diwrnod llawn, gyda'r disgwyliad y bydd y mwyafrif o ynadon yn gallu ac yn barod i wneud hyn. Fodd bynnag, rhaid i rotas llysoedd fod yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer ynadon na allant eistedd am ddiwrnodau llawn oherwydd eu hymrwymiadau eraill (er gall fod gofyn iddynt eistedd cymysgedd o eisteddiadau, gan gynnwys rhai eisteddiadau diwrnod llawn, i gynnal eu cymwyseddau yn unol â'r Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol ar gyfer Ynadon).

**Presenoldeb**

5.25 Dylai ynadon eistedd er mwyn:

- ennill profiad a pharhau i fod yn gyfarwydd â'u dyletswyddau;
- cynnal eu cymwyseddau;
- sicrhau dosbarthiad teg o eisteddiadau ar draws y fainc; a
- chynllunio gwaith y llys yn seiliedig ar wybodaeth y bydd yna ddigon o ynadon ar gael ar unrhyw adeg i lenwi eisteddiadau sy'n weddill.

5.26 Er mwyn hyrwyddo a chynnal amrywiaeth y fainc, mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn annog hyblygrwydd o ran ynadon sydd ag ymrwymiadau eraill sy'n ei gwneud yn anodd iddynt eistedd ar adegau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Fel arfer, disgwylir i ynadon eistedd bob mis fel bod y rhai sydd ond yn gallu eistedd yr isafswm o 13 diwrnod y flwyddyn yn cael profiad rheolaidd a chysylltiad â'u Mainc. Weithiau, efallai y bydd angen i ynadon wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol mewn ymateb i ddigwyddiadau yn eu bywydau gan ddilyn y broses isod. Ar gyfer ynadon sydd angen addasiadau rhesymol mwy parhaol i'r patrwm eistedd cyffredinol, dylent wneud cais i Gadeirydd y Fainc yn gofyn am ryddhad o'r gofyniad eistedd arferol a phatrwm eistedd wedi'i addasu.

**Eisteddiadau 'y tu allan i oriau'**

5.27 Ar brydiau, gall fod angen i ynadon ystyried ceisiadau am writiau chwilio ac achosion eraill y tu allan i oriau busnes arferol. Mae GLITEF yn gyfrifol am weinyddu a chynnal system rota i reoli achosion y tu allan i oriau.

5.28 Gall ynadon cymwys ddewis optio i mewn i'r rota hon, ond dylent gadw effaith hyn ar eu gofynion eistedd mewn cof i sicrhau nad ydynt yn mynd tu hwnt i'r gofyniad eistedd uchaf.

5.29 Ni all ynadon ddefnyddio eisteddiadau y tu allan i oriau yn unig i fodloni'r gofynion eistedd gofynnol.

5.30 Bydd y cyfnod pan fydd yr ynad ar ddyletswydd ar y rota y tu allan i oriau gyfystyr ag eisteddiad hanner diwrnod pan nad oes achos i'w wrando ond bod yr ynad wedi bod yn barod i eistedd am y cyfnod

hwnnw, ac 1 diwrnod eistedd pan fydd yr ynad wedi delio ag o leiaf 1 achos yn ystod y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn cael ei gydbwyso â'r profiad a gafwyd o'r eisteddiadau llys a bydd cofnod eistedd blynyddol yr ynad yn cael ei gredydu ag uchafswm o 12 eisteddiad (6 diwrnod).

### Cyfartaledd eistedd

5.31 Os oes nifer digonol o ynadon wedi'u recriwtio i Ardal Gyfiawnder Lleol, dylai'r cyfartaledd blynyddol o ran presenoldeb (gan gynnwys eisteddiadau yn y Llys y Goron) fod rhwng **17 a 23 diwrnod eistedd.** Byddai lefel uwch na hyn yn rhoi pwysau diangen ar rai ynadon, gallai achosi anawsterau i gyflogwyr a chydweithwyr, a gallai danseilio amrywiaeth y fainc.

5.32 Nid dyletswydd ynadon yw ceisio sicrhau'r cyfartaledd ar gyfer eu mainc. Mae cyfartaledd yn awgrymu y bydd rhai yn eistedd llai na hyn a rhai eraill yn eistedd mwy na hyn. Pennir lefel gyffredinol eisteddiadau gan y llwyth gwaith.

### Cyfrif presenoldebau

5.33 Bwriad y Cyfarwyddiadau hyn yw sicrhau cysondeb o ran sut mae Pwyllgorau Ymgynghorol yn cyfrif presenoldebau ac yn penderfynu a yw ynadon unigol yn bodloni'r gofynion eistedd lleiaf neu'n rhagori ar y terfynau.

5.34 Rhaid cyfrifo presenoldebau ar ffurf hanner diwrnodau:

- os bydd ynad wedi'i gynnwys ar y rota am y diwrnod cyfan, credydir dau eisteddiad iddynt waeth am faint o amser y mae'r llys yn eistedd yn y prynhawn;
- os bydd ynad wedi'i gynnwys ar y rota am y bore'n unig, ond nad yw'r llys yn gorffen a bod angen i'r fainc ddychwelyd ar ôl cinio, bydd y prynhawn yn cyfrif fel eisteddiad ar wahân, waeth am faint o amser y bydd y llys yn eistedd yn y prynhawn;
- os nad oes toriad ar gyfer cinio, bydd eisteddiad sy'n para dros 4 awr yn cyfrif fel dau eisteddiad; ac
- os bydd ynad wedi'i gynnwys ar y rota am y diwrnod cyfan, ond eu bod ond yn eistedd yn y bore, credydir y bore'n unig.

5.35 Os bydd ynad yn mynychu dau lys gwahanol, er enghraifft llys oedolion a llys ieuenctid, yn ystod yr un bore neu'r un prynhawn, dylid fel arfer cyfrif hyn fel un presenoldeb.

5.36 Os bydd ynad yn mynychu dau lys gwahanol, er enghraifft llys oedolion a llys ieuenctid, yn ystod yr un bore neu'r un prynhawn, dylid fel arfer cyfrif hyn fel un eisteddiad (hanner diwrnod).

5.37 Cyfrifir eisteddiad yn unrhyw un o'r canlynol fel presenoldeb:

- llys oedolion (eisteddiadau arferol ac arbennig);
- llys teulu;
- llys ieuenctid;
- Llys y Goron.

5.38 Dylai eistedd ar fainc arall gyfrif tuag at gyfanswm eisteddiadau ynad unigol.

5.39 Pan fydd ynad wedi eistedd ar fainc arall, dylid ond cynnwys yr eisteddiadau hynny wrth gyfrifo cyfartaledd presenoldeb y fainc honno, ac nid mainc barhaol yr ynad.

**Panelau teulu a phanelau ieuenctid**

5.40 Disgwylir i ynadon sy'n eistedd yn y dair awdurdodaeth eistedd o leiaf **45 hanner diwrnod** y flwyddyn ar draws y dair awdurdodaeth. Wrth wneud cais am awdurdodaeth i eistedd yn y llys ieuenctid a'r llys teulu, rhaid i ynadon roi ymgymeriad y gallant fodloni'r gofynion eistedd gofynnol.

5.41 Anogir ynadon teulu, lle bo modd ac os yw anghenion busnes yn caniatáu, i eistedd am fwy na'r **15 hanner diwrnod** gofynnol, cyn belled nad yw hyn ar draul eu hygyrchedd i eistedd yn y llys oedolion. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y lleiafswm gofynnol yn y llys oedolion yn parhau i fod yn **15 hanner diwrnod**.

5.42 Anogir Ynadon Llywyddol yn y Llys Teulu, lle bo modd ac os yw anghenion busnes yn caniatáu, i eistedd o leiaf **24 hanner diwrnod** y flwyddyn (er bydd y rhain fel arfer yn eisteddiadau diwrnod llawn) yn y llys teulu (gyda dau allan o bob tri o'r eisteddiadau hynny fel Ynad Llywyddol).

**Eistedd mewn un awdurdodaeth yn unig**

5.43 Caiff ynadon sydd wedi'u hawdurdodi i wrando achosion yn y llys teulu a'r llys troseddol ddewis eistedd yn un ohonynt yn unig, ar yr amod bod y dair ddarpariaeth isod yn cael eu bodloni:

- Bod yna ddigon o waith i alluogi'r ynad gyflawni'r gofyniad eistedd isaf, gan gynnwys gwaith wrth gefn pan fydd achosion yn setlo;
- Ni fydd hyn yn amddifadu ynadon eraill o'r cyfle i ddiwallu o leiaf eu gofynion eistedd lleiaf; ac
- ni fydd yn cael effaith andwyol ar allu'r Pennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol i reoli gwaith y llys.

Rhaid i Gadeirydd y Fainc, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd Panel perthnasol a Phwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu / Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau Ynadon gymeradwyo ceisiadau i eistedd mewn un llys yn unig.

5.44 Gall ynadon sydd wedi penderfynu eistedd mewn un awdurdodaeth yn unig ddychwelyd i eistedd mewn awdurdodaeth arall os bydd anghenion y busnes yn caniatáu. Bydd gofyn iddynt gwblhau unrhyw hyfforddiant gloywi perthnasol (gan gynnwys gwerthusiad) yn unol â chais Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu / Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau Ynadon.

## Caniatâd i fod yn absennol

5.45 Mae'r adran hon yn nodi'r prosesau ar gyfer rhoi caniatâd i fod yn absennol ac yn egluro beth yw'r terfynau awdurdod ar bob lefel.

### Absenoldebau o hyd at 18 mis

5.46 Gall Cadeiryddion Meinciau gymeradwyo ceisiadau am ganiatâd i fod yn absennol o hyd at 12 mis. Wrth ddelio â cheisiadau o'r fath:

- Rhaid hysbysu Pwyllgorau Ymgynghorol am y cais a awdurdodwyd.
- Rhaid i Gadeiryddion Meinciau adolygu cyfnodau o absenoldeb bob tri mis.
- Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gofnodi'r absenoldeb ar y gronfa ddata ganolog a ddefnyddir gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.
- Mae gan Gadeiryddion Meinciau ddisgresiwn i atgyfeirio unrhyw fater sy'n ymwneud â chaniatâd i fod yn absennol i'r Pwyllgor Ymgynghorol.
- Pan fyddai'r cais am ganiatâd i fod yn absennol yn golygu bod ynad wedi bod yn absennol am fwy na'r terfyn o 12 mis mewn unrhyw gyfnod o 24 mis, rhaid i Gadeirydd y Fainc gyfeirio'r ynad at y Pwyllgor Ymgynghorol.

5.47 Gall Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol gymeradwyo ceisiadau am ganiatâd i fod yn absennol am fwy na 12 mis mewn unrhyw gyfnod o 24 mis. Wrth ddelio â cheisiadau o'r fath:

- Rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol gyfeirio'r cais gyda'u hargymhelliad i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.
- Os bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn cymeradwyo'r cais, rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol hysbysu Cadeirydd y Fainc.
- Mae'n annhebygol y rhoddir caniatâd i unrhyw ynad fod yn absennol am dros 18 mis.

5.48 Nid oes angen caniatâd i fod yn absennol pan fo'r absenoldeb oherwydd salwch. O dan yr amgylchiadau hyn:

- Rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol fonitro'r absenoldeb.
- Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gofnodi'r absenoldeb ar y gronfa ddata ganolog a ddefnyddir gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.
- Os bydd yr absenoldeb am dros 18 mis, rhaid i Gadeiryddion Meinciau drafod gyda'r ynad a yw eu cynnwys ar y Rhestr Atodol yn fwy priodol.

5.49 Nid oes rhaid cael caniatâd i fod yn absennol pan fo'r absenoldeb oherwydd beichiogrwydd (hyd at 52 wythnos). O dan yr amgylchiadau hyn:

- Dylai'r ynad hysbysu Cadeirydd y Fainc, Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol a Phennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol o'u bwriad i roi'r gorau i eistedd fel ynad am y tro cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gofnodi'r absenoldeb ar y gronfa ddata ganolog a ddefnyddir gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

5.50 Nid oes angen caniatâd i fod yn absennol pan fo'r absenoldeb am resymau personol. O dan yr amgylchiadau hyn:

- Mae hyn yn ymwneud â sefyllfaoedd pan fydd ynad yn peidio ag eistedd oherwydd, er enghraifft, eu bod yn gysylltiedig ag achos llys, anawsterau ariannol neu ymddygiad perthnasau neu ffrindiau.
- Rhaid i Bwyllgorau Ymgynghorol gofnodi'r absenoldeb ar y gronfa ddata ganolog a ddefnyddir gan Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.
- Dylai Cadeiryddion Meinciau fonitro'r absenoldeb a'i riportio i'r Pwyllgor Ymgynghorol pan fo'r cyfnod o absenoldeb am fwy na 12 mis.

5.51 Mae Canllawiau yr Arglwydd Brif Ustus i Gadeiryddion Meinciau ar faterion bugeiliol yn cynnwys cyfarwyddyd ar atgyfeiriadau Iechyd Galwedigaethol i ynadon sydd angen hyn oherwydd salwch hirdymor neu i asesu ffitrwydd i gyflawni'r rôl.

### Absenoldebau dros 18 mis

5.52 Pan fydd ynad wedi bod yn absennol o'r fainc am dros 18 mis, dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol ddechrau cymryd camau i gadarnhau sefyllfa'r ynad.

5.53 Yn gyntaf, dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol ofyn i Gadeirydd y Fainc gyfarfod â'r ynad i drafod a ydynt yn debygol o ddychwelyd yn fuan, ac os ddim, a fyddent yn fodlon ymddiswyddo neu symud o'r Rhestr Weithredol a gwneud cais i'w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol, yn unol â'r datganiad a'r ymgymeriad a lofnodwyd ganddynt adeg eu penodi.

5.54 Os nad yw'r ynad yn fodlon ymddiswyddo, neu os na all Cadeirydd y Fainc gysylltu â'r ynad, dylid cyfeirio'r mater at Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol. Dylid trin achosion yn sensitif.

5.55 Os yw'r ynad yn fodlon symud o'r Rhestr Weithredol gallant wneud cais i'r Arglwydd Ganghellor, drwy'r Pwyllgor Ymgynghorol, i'w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol. Byddai'r ynad yn gallu gwneud cais i ddychwelyd i'r Rhestr Weithredol pryd bynnag y bydd eu hamgylchiadau personol yn golygu bod hyn yn briodol.

5.56 Pan fydd ynad yn dychwelyd i eistedd ar ôl cyfnod hir o absenoldeb, dylid hysbysu Cadeirydd Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu / Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau Ynadon fel bod yr ynad yn cael eu cefnogi pan fyddant yn dychwelyd.

### Darpariaethau cyffredinol

5.57 Mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi dirprwyo ei awdurdod statudol i ail-leoli ynadon i Ardal Gyfiawnder Lleol arall i'r Uwch Farnwr Llywyddol.

5.58 Pan fydd rhannau o'r broses hon yn gofyn am atgyfeiriad at yr Uwch Farnwr Llywyddol neu ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor, bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn hwyluso'r broses honno.

5.59 Nid oes gan ynadon hawl awtomatig i drosglwyddo i Ardal Gyfiawnder Lleol arall. Gan amlaf disgwylir iddynt fyw neu weithio'n agos at yr Ardal Gyfiawnder Lleol lle cânt eu lleoli. Fodd bynnag, fel arfer dylid caniatáu ceisiadau o'r fath, oni bai bod rhesymau cadarn dros wrthod (gweler 'Rhesymau dros wrthod' isod).

5.60 Fel arfer adeg penodi, caiff ynadon eu neilltuo gan yr Arglwydd Brif Ustus i Ardal Gyfiawnder Lleol sy'n agos at ble maent yn byw neu'n gweithio. Os bydd amgylchiadau ynad yn newid fel nad ydynt bellach yn byw neu'n gweithio o fewn yr Ardal Gyfiawnder Lleol lle'u lleolwyd neu'n agos ati, fel arfer disgwylir iddynt wneud cais am drosglwyddiad i'w hardal newydd. Dylai ynadon sydd yn y sefyllfa hon ond nad ydynt yn dymuno gwneud cais i drosglwyddo heb reswm da ymddiswyddo, ac efallai y gallant wneud cais i'w cynnwys ar y Rhestr Atodol. Mae enghreifftiau o resymau derbyniol dros beidio â cheisio trosglwyddiad i Ardal Gyfiawnder Lleol arall yn cynnwys:

- Nid yw'r ynad yn gymwys i wasanaethu yn yr Ardal Gyfiawnder Lleol honno oherwydd eu galwedigaeth neu alwedigaeth aelod teulu agos
- Mae yna foratoriwm cymeradwy ar dderbyn trosglwyddiadau i'r Ardal Gyfiawnder Lleol y dylent trosglwyddo iddi
- Mae'r ynad o fewn 12 mis i'r oedran ymddeol gorfodol
- Mae Cadeirydd y Fainc a'r Pennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol (HOLO) yn cytuno ei bod yn rhesymol i'r ynad barhau i wasanaethu yn yr ardal honno

### Y broses drosglwyddo

5.61 Dyma fanylion y broses drosglwyddo:

- Dylai ynad lenwi ffurflen gais (**Atodiad 5A**) a'i hanfon at Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol. Bydd yr Ysgrifennydd yn cydnabod bod y cais wedi cyrraedd.
- Bydd yr Ysgrifennydd yn cyfeirio'r cais at Gadeirydd y Fainc ac yn gofyn am eirda.
- Bydd Cadeirydd y Fainc yn ystyried y cais a chyn belled nad oes sail i wrthod y cais i drosglwyddo, bydd yn darparu geirda gan ddefnyddio ffurflen Cadeirydd y Fainc (**Atodiad 5B**) ac yn ei anfon at Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol, gyda chopi i'r ynad.
- Bydd yr Ysgrifennydd yn cydnabod bod y cais wedi cyrraedd ac yn

prosesu'r cais (neu'n ei basio ymlaen os yw'r ardal drosglwyddo mewn ardal Pwyllgor Ymgynghorol gwahanol sydd ag Ysgrifennydd gwahanol).

- Bydd yr Ysgrifennydd perthnasol yn anfon y cais, geirda Cadeirydd y Fainc a chofnod hyfforddiant yr ynad at Gadeirydd Fainc yr ardal newydd i'w hystyried.
- Os nad yw'r ardal newydd yn derbyn ynadon newydd ar hyn o bryd yna dylai'r ynad ofyn am gael caniatâd i fod yn absennol os na allant gyflawni'r gofynion eistedd lleiaf.
- Os bydd yr ardal newydd yn argymell derbyn y cais i drosglwyddo, rhaid hysbysu Ysgrifennydd yr ardal honno o'r argymhelliad gan ddefnyddio'r ffurflen safonol (**Atodiad 5C**). Bydd Ysgrifennydd yr ardal newydd yn hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol a fydd yn trosglwyddo'r cais i'r Uwch Farnwr Llywyddol i'w gymeradwyo. Yna, os yn briodol, bydd yn cymeradwyo'r cais ar ran yr Arglwydd Ganghellor.
- Os bydd Cadeirydd Mainc yr ardal newydd yn argymell bod y cais yn cael ei wrthod, dylid hysbysu Ysgrifennydd yr ardal newydd am hynny gan ddefnyddio ffurflen safonol (**Atodiad 5C**). Dylai'r Ysgrifennydd hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol a fydd wedyn yn trosglwyddo'r mater i'r Uwch Farnwr Llywyddol i'w ystyried. Yna fe hysbysir yr ynad am y penderfyniad a wnaed gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.
- Bydd Cadeirydd Mainc yr ardal newydd yn trefnu cyfarfod cychwynnol gyda'r ynad. Gall Cadeirydd Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu / Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau Ynadon hefyd fynychu'r cyfarfod hwn i drafod unrhyw anghenion hyfforddi. Dylai Cadeiryddion Meinciau gwblhau'r rhestr wirio (**Atodiad 5D**) fel cofnod o'r drafodaeth.

**Y broses pan nad yw Ardal Gyfiawnder Lleol yn derbyn ynadon newydd**

5.62 Ystyrir bod Ardal Gyfiawnder Lleol yn llawn os yw:

- Cyfartaledd eistedd y fainc o dan 20 diwrnod eistedd[2] y flwyddyn, a
- Rhagwelir y byddai derbyn unrhyw drosglwyddiadau yn ystod y 12 mis nesaf yn atal ynadon rhag bodloni'r gofynion eistedd gofynnol.

5.63 Dylai ynadon na allant drosglwyddo oherwydd nad yw'r ardal newydd yn derbyn ynadon newydd, ac na allant gynnal eu gofynion eistedd gofynnol o ganlyniad i amgylchiadau sy'n ymwneud â'u cais i drosglwyddo wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol.

5.64 Os rhagwelir na fydd yr ardal yn derbyn ynadon newydd ar ôl 18 mis, dylid

[2] Mae "diwrnod eistedd" yn cyfateb i ddau eisteddiad hanner diwrnod

eu hannog i ystyried gwneud cais i'w cynnwys ar y Rhestr Atodol. Mae'n bwysig nodi na ellir gorfodi ynadon i wneud cais i ymuno â'r Rhestr Atodol.

5.65 Rhaid i ynadon gwblhau unrhyw hyfforddiant angenrheidiol fel y cyfarwyddir gan y Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu / Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau Ynadon lleol yn dilyn cyfnod o absenoldeb yn yr amgylchiadau hyn a cyn dychwelyd i eistedd.

**Y broses pan fydd pryderon am effaith trosglwyddiadau ar recriwtio pobl leol**

5.66 Os bydd Pwyllgor Ymgynghorol yn bryderus y bydd parhau i dderbyn trosglwyddiadau, neu ychwanegu ymgeiswyr sy'n dymuno trosglwyddo i'r Rhestr Atodol, yn debygol o achosi rhwystr sylweddol wrth benodi digon o ynadon newydd neu'n tanseilio cydbwysedd y fainc, gellir gofyn i'r Uwch Farnwr Llywyddol roi moratoriwm 12 mis ar dderbyn ceisiadau trosglwyddo. Gellir gwneud cais i'r Uwch Farnwr Llywyddol am ganiatâd i ymestyn y moratoriwm am hyd at 12 mis arall o leiaf mis gyn i unrhyw foratoriwm ddod i ben.

5.67 Dylid cysylltu ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol am gyngor ar lunio cais i gyflwyno neu ymestyn moratoriwm, a byddant yn hwyluso'r broses hon ar ran yr Uwch Farnwr Llywyddol.

**Ail-leoli ynadon er budd gweinyddu cyfiawnder**

5.68 Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, gall yr Uwch Farnwr Llywyddol, er budd gweinyddu cyfiawnder, ystyried ail-leoli ynad i Ardal Gyfiawnder Lleol arall o dan adran 10(2)(b) Deddf y Llysoedd 2003.

5.69 Yr Uwch Farnwr Llywyddol yn unig sy'n meddu ar yr awdurdod hwn, yn dilyn ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor, a dim ond ar ôl ystyried yr amgylchiadau'n ofalus iawn y gwneir hyn.

5.70 Nid yw'r pŵer hwn wedi'i ddirprwyo i Gadeiryddion Meinciau.

**Rhesymau dros wrthod, gohirio neu atgyfeirio cais i drosglwyddo i'r Uwch Farnwr Llywyddol drwy Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol**

5.71 Y disgwyliad ydi y bydd ynadon yn gofyn am gael eu trosglwyddo i ardal lle maent yn byw neu'n gweithio i gynnal egwyddor cyfiawnder lleol.

5.72 Rhaid i ynadon fod wedi cael eu gwerthusiad trothwy cyn gofyn am drosglwyddiad, oni bai bod newid sylweddol wedi bod yn eu hamgylchiadau ers iddynt gael eu penodi.

5.73 Rhaid gwrthod ceisiadau gan ynadon sy'n anghymwys i eistedd yn eu hardal ddymunol yn unol â'r hyn a nodir yn Rhan 2 y Cyfarwyddiadau hyn, megis galwedigaeth. Os nad ydynt yn llwyr anghymwys a bod hyn yn ddibynnol ar yr amgylchiadau penodol, dylai Cadeirydd y Fainc wneud

argymhelliad gyda chydsyniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Os na ellir dod i gytundeb, dylid cyfeirio'r mater at Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol a fydd yn ceisio cyfarwyddyd gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.

5.74 Rhaid dal yn ôl ceisiadau gan ynadon sy'n ymwneud â gweithdrefnau ymddygiad hyd nes y daw'r gweithdrefnau hyn i ben.

5.75 Lle y rhoddwyd sancsiwn disgyblaethol ffurfiol i ynad yn dilyn gweithdrefn ymddygiad, nid yw hynny ynddo'i hun yn rheswm i wrthod eu cais.

**Hawl i geisio adolygiad o benderfyniad i wrthod cais i drosglwyddo**

5.76 Gall ynad y gwrthodwyd ei gais gan Gadeirydd y Fainc ofyn am adolygiad gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.

5.77 Dylid anfon ceisiadau am adolygiad at Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o fewn **10 diwrnod gwaith** i'r ynad gael ei hysbysu am y penderfyniad.

5.78 Dylai Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol hysbysu Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol presennol yr ynad ac Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr ardal y gwnaeth gais i drosglwyddo iddo am ganlyniad yr adolygiad, a dylid anfon copi ohono at yr ynad.

## Y Rhestr Atodol

5.79 Mae'r adran hon yn cynnwys manylion am Restr Atodol Cymru a Lloegr a phryd a sut y dylai ynad wneud cais i gael eu hychwanegu i'r rhestr.

### Cyffredinol

5.80 Mae Deddf y Llysoedd 2003 yn nodi y dylid cadw Rhestr Atodol ar gyfer Cymru a Lloegr yn swyddfa Clerc y Goron yn y Siawnsri. Clerc y Goron yn y Siawnsri yw hefyd Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

5.81 Dylid defnyddio'r Rhestr Atodol fel modd i:

- gymeradwyo ynadon am wasanaeth da ar ôl iddynt symud o'r rhestr weithredol ac yn awtomatig pan fyddant yn cyrraedd yr oedran ymddeol statudol; a
- hwyluso'r broses o ddychwelyd i'r rhestr weithredol mewn sefyllfaoedd lle mae ynadon wedi'u trosglwyddo dros dro o'r rhestr honno.

5.82 Gall ynadon sydd dan 70 oed ac sydd ar y Rhestr Atodol ddychwelyd i'r Rhestr Weithredol ac ail-ddechrau eistedd heb gyfweliad ffurfiol gan y Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad.

### Ymddeoliadau

5.83 Rhaid cynnwys enw ynad sydd wedi cyrraedd 70 oed ar y rhestr atodol, ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:

- Gall ynad sy'n Gadeirydd Mainc ar eu pen-blwydd yn 70 oed aros ar

y Rhestr Weithredol tan ddiwedd eu tymor (Deddf y Llysoedd 2003, Adran 13 (2)). Rhaid i Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol o achlysuron o'r fath; neu

- Gall ynad sydd, neu y disgwylir eu bod yn ymwneud ag achos ar eu penblwydd yn 70 oed aros ar y Rhestr Weithredol hyd nes i'r achos hwnnw ddod i ben, yn amodol ar gydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor. Rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol pan gyfyd sefyllfaoedd o'r fath (gan roi cymaint o rybudd â phosibl) a bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn cysylltu â'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor am gyfarwyddyd.

**Cofrestru ar y rhestr atodol wrth adael y rhestr weithredol**

5.84 Gall ynad sy'n dymuno symud o fod ar y Rhestr Weithredol i fod ar y Rhestr Atodol wneud cais i'w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol ar unrhyw adeg. Nid oes rhaid i ynad fod wedi gwasanaethu am gyfnod penodol cyn y gall ofyn i'w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol. Gall y Pwyllgor Ymgynghorol wneud argymhelliad i'r Arglwydd Ganghellor ynghylch addasrwydd trosglwyddo enw ynad i'r rhestr atodol.

5.85 Dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol ystyried pob cais rhesymol a rhoi sylw i wasanaeth da'r ynad unigol. Fel rheol, dylai'r ynad fod wedi cwblhau eu hyfforddiant craidd a chael eu gwerthuso fel ynad cymwys yn y gylch arferol o werthusiadau; dylent fod wedi bodloni'r gofyniad eistedd gofynnol o 13 diwrnod o fewn y 12 mis diwethaf (ac eithrio lle mae rhesymau da yn berthnasol); ac ni ddylent fod wedi bod yn destun camau disgyblu am gamymddwyn o fewn y pum mlynedd ddiwethaf.

5.86 Dylid gwneud cais i gynnwys enw ar y Rhestr Atodol yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Ymgynghorol, a ddylai wedyn ymgynghori â Chadeirydd y Fainc a Chadeirydd y Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu / Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau Ynadon cyn gwneud eu hargymhellion ar y cais.

5.87 Pan fydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn penderfynu peidio â gwneud argymhelliad i'r Arglwydd Ganghellor, dylai'r Ysgrifennydd hysbysu'r ynad yn ysgrifenedig, gan roi rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor. O dan amgylchiadau o'r fath gall yr ynad dan sylw wneud cais i'r Arglwydd Ganghellor i'r penderfyniad gael ei ailystyried.

5.88 Os bydd yr Arglwydd Ganghellor yn penderfynu peidio â chynnwys enw ynad ar y Rhestr Atodol, bydd yr Arglwydd Ganghellor yn ysgrifennu at yr ynad yn nodi'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

5.89 Byddai angen i ynadon sydd ar y Rhestr Atodol sy'n dymuno dychwelyd i'r Rhestr Weithredol, ac y mae yna swydd wag ar y fainc y maent yn dymuno ailddechrau eistedd arni, gael eu cyfweld yn anffurfiol gan y Pwyllgor Ymgynghorol (ym mha bynnag ffordd a ystyrir yn briodol) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amgylchiadau eithriadol yn berthnasol ac i

asesu unrhyw anghenion hyfforddi. Rhaid i ynadon sy'n dymuno dychwelyd i'r Rhestr Weithredol lenwi'r ffurflen gais safonol (**Atodiad 5E**) i gynorthwyo gyda'r trafodaethau hyn. Os cynhelir cyfarfod o'r fath, dylid cadw cofnod o'r cyfarfod.

5.90 Gall enwau ynadon gael eu cynnwys ar y Rhestr Atodol hyd yn oed pan fyddant yn bwriadu symud i fyw dramor yn barhaol. Fodd bynnag, ni chaniateir i ynadon gael eu cynnwys ar y Rhestr Atodol a defnyddio'r ôl-ddodiad YH os ydynt yn symud i wlad lle mae awdurdodaeth debyg i ynadaeth Cymru a Lloegr yno a lle mae'r ôl-ddodiad yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan ddeiliaid swyddi barnwrol yn y wlad honno.

### Pwerau a dyletswyddau ynadon ar y Rhestr Atodol

5.91 Ni chaiff ynadon sydd ar y Rhestr Atodol gyflawni unrhyw weithred fel Ynad Heddwch.

5.92 Gall ynadon sydd ar y Rhestr Atodol ddefnyddio'r ôl-ddodiad "YH" ar ôl eu henw ond mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r un canllawiau ag ynadon gweithredol (gweler y llyfryn *Gwybodaeth Ddefnyddiol i Ynadon)*.

5.93 Rhaid i ynadon sydd ar y Rhestr Atodol hysbysu Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol eu hardal os byddant yn newid cyfeiriad. Yna rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol fel y gellir diweddau'r cofnodion e-HR. Os bydd ynad yn symud i ardal Pwyllgor Ymgynghorol arall, rhaid iddynt hysbysu Pwyllgor Ymgynghorol yr ardal newydd bod ganddynt ynad ar y Rhestr Atodol sydd bellach yn byw yn eu hardal nhw. Anogir Pwyllgorau Ymgynghorol a meinciau lleol i gadw mewn cysylltiad ag ynadon sydd ar y Rhestr Atodol fel sy'n briodol.

5.94 Anfonir llythyr at ynadon gyda nodyn yn egluro beth mae bod ar y Rhestr Atodol yn ei olygu.

### Cwynion am ynadon ar y Rhestr Atodol

5.95 Os bydd Pwyllgor Ymgynghorol yn cael cwyn benodol am ymddygiad ynad sydd ar y Rhestr Atodol, dylai'r gŵyn, os yw'n briodol, gael ei hymchwilio gan y Pwyllgor Ymgynghorol yn unol â'r broses yn Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Ynadon) 2014.

## Ymddiswyddiadau, symudiadau o'r rhestr weithredol, ymddeoliadau a marwolaethaeth

### Ymddiswyddiadau

5.96 Gall ynad ymddiswyddo o swydd farnwrol ar unrhyw adeg.

5.97 Ni fydd enwau ynadon sy'n ymddiswyddo o swydd farnwrol yn cael eu cynnwys ar y Rhestr Atodol oni bai eu bod yn gwneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr cyn iddynt ymddiswyddo.

5.98 Pan fydd ynad yn dymuno ymddiswyddo o swydd farnwrol, dylent hysbysu'r Ysgrifennydd am hyn. Dylai'r Ysgrifennydd hysbysu Gweithrediadau Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol a fydd wedyn yn

diwygio’r cofnodion E-HR i nodi dyddiad yr ymddiswyddiad ac yn hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol. Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn anfon y llythyr priodol at yr ynad.

5.99 Pan fydd ynad yn hysbysu’r Ysgrifennydd o’u bwriad i symud o’r Rhestr Weithredol (h.y. Ymddiswyddo) ac nad yw’r ynad wedi gwneud cais i’w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol, dylai’r Pwyllgor Ymgynghorol ystyried a yw symud yr ynad i’r Rhestr Atodol yn opsiwn mwy priodol na ymddiswyddo.

5.100 Os yw’r Pwyllgor yn ystyried bod yr ynad yn addas i’w gynnwys ar y Rhestr Atodol, dylid hysbysu’r Ysgrifennydd am hyn a fydd yn gofyn i’r ynad a yw’n dymuno gwneud cais o’r fath. Os hoffai’r ynad ofyn i’w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol, dylai’r Ysgrifennydd hysbysu Adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol, a fydd yn anfon y cais at yr Arglwydd Ganghellor i’w ystyried. Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn prosesu’r cais yn unol â phenderfyniad yr Arglwydd Ganghellor ac yn hysbysu'r Ysgrifennydd.

5.101 Pan na fydd Pwyllgorau Ymgynghorol yn ystyried bod ynad yn addas i’w cynnwys ar y Rhestr Atodol, bydd Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol. Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn anfon y llythyr priodol at yr ynad yn cadarnhau eu bod wedi ymddiswyddo o'u swydd farnwrol.

**Symudiadau gwirfoddol o’r Rhestr Weithredol**

5.102 Gall ynad, ar unrhyw adeg, ofyn am gael symud oddi ar y Rhestr Weithredol ac i’w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol.

5.103 Pan fydd ynad yn hysbysu’r Ysgrifennydd o’u bwriad i symud oddi ar y Rhestr Weithredol ac yn gwneud cais i’w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol, dylai’r Pwyllgor Ymgynghorol ystyried y cais hwn. Os nad oes gan y Pwyllgor Ymgynghorol unrhyw amheuon, dylai’r Ysgrifennydd hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol a fydd yn ceisio cymeradwyaeth yr Arglwydd Ganghellor. Pan fydd gan Bwyllgor Ymgynghorol amheuon, dylai’r Ysgrifennydd ysgrifennu at yr ynad gan roi rhesymau dros yr amheuon a’u hysbysu am eu hawl i’w cais gael ei ystyried gan yr Arglwydd Ganghellor. Os yw ynad yn dymuno i’w cais gael ei ystyried gan yr Arglwydd Ganghellor, dylid trosglwyddo’r cais i Adran Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol ynghyd â gwybodaeth am amheuon y Pwyllgor Ymgynghorol. Bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn ceisio penderfyniad yr Arglwydd Ganghellor.

**Ymddeoliadau**

5.104 Tri mis cyn pen-blwydd ynad yn 70 oed, bydd Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol i gadarnhau dyddiad eu hymddeoliad o’r Rhestr Weithredol.

5.105 Dylai’r Ysgrifennydd roi gwybod i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol

cyn gynted â phosibl am amgylchiadau eithriadol neu unrhyw faterion personol a allai effeithio ar eiriad y llythyr ymddeol.

5.106 Bydd swyddogion Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn paratoi llythyr ymddeol oddi wrth yr Uwch Farnwr Llywyddol, i’w anfon ar neu o fewn ychydig ddyddiau i’r dyddiad ymddeol.

**Marwolaethau**

5.107 Wrth roi gwybod am farwolaeth ynad sydd ar y Rhestr Weithredol, rhaid i Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol hefyd nodi a yw’n briodol anfon llythyr cydymdeimlad at y perthynas agosaf ac os felly, darparu enw a chyfeiriad yr unigolyn y dylid anfon y llythyr hwnnw ato/i.

5.108 Os daw Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yn ymwybodol o farwolaeth ynad ar y Rhestr Atodol, rhaid iddynt hysbysu Tîm Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

5.109 Fel rheol ni anfonir llythyr cydymdeimlad at berthynas agos ynad ar y Rhestr Atodol. Fodd bynnag, os yw Pwyllgor Ymgynghorol yn teimlo y byddai llythyr cydymdeimlad yn briodol oherwydd amgylchiadau penodol (os, er enghraifft, mai dim ond yn ddiweddar cafodd yr ynad eu cynnwys ar y Rhestr Atodol), yna dylai’r Ysgrifennydd hysbysu Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn unol â hynny.

5.110 Pan fydd llythyr cydymdeimlad i’w anfon, bydd swyddogion yn Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol yn paratoi'r llythyr priodol i'w anfon gan yr Uwch Farnwr Llywyddol.

## Ailbenodiadau ac adferiadau

5.111 Nid oes gan gyn-ynadon hawl awtomatig i gael eu hailbenodi. Fodd bynnag, mae’r Arglwydd Ganghellor yn disgwyl, lle bynnag y bydd amgylchiadau’n caniatáu, y rhoddir ystyriaeth i ailbenodi ynadon sydd wedi ymddiswyddo o’r swydd ac sydd bellach yn dymuno ailddechrau eistedd (pan fyddant dan 70 oed).

**Pan ymddiswyddodd yr ynad ac nad yw ar y Rhestr Atodol**

5.112 Dylai cyn-ynadon sy’n dymuno dychwelyd i’r ynadaeth nad ydynt ar y Rhestr Atodol ac a wnaeth ymddiswyddo llai na 24 mis cyn eu dymuniad i ddychwelyd, lenwi ffurflen gais lawn i’w hystyried gan y Pwyllgor Ymgynghorol.

5.113 Y disgwyliad cyffredinol yw, ar yr amod eu bod wedi ymddiswyddo llai na 24 mis yn ôl, ni fydd angen i gyn-ynadon ddarparu canolwyr neu fynd trwy’r broses gyfweld ffurfiol. Fodd bynnag, bydd angen iddynt lenwi ffurflen gais, fel bod cofnod ysgrifenedig cyfredol ar gael ar ôl iddynt gael eu hadfer i swydd ynad.

5.114 Dylid trin cyn-ynadon a ymddiswyddodd fwy na dwy flynedd cyn y cais presennol fel ymgeiswyr newydd.

5.115 Nid oes gofyn i gyn-ynadon sy'n gwneud cais i gael eu hail-benodi fod wedi byw yn yr ardal y maent yn gwneud cais iddi am 12 mis.

5.116 Er nad oes angen i'r cyn-ynad ddarparu canolwyr allanol, rhaid i Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol anfon y ffurflen geirda safonol (**Atodiad 5B**) at Bwyllgor Ymgynghorol blaenorol y cyn-ynad i gael geirda gan eu cyn-Gadeirydd Mainc.

5.117 Dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol gyfarfod â'r cyn-ynad cyn argymell ailbenodiad er mwyn sicrhau nad oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod yn eu hamgylchiadau ac nad oes amheuon ynghylch eu hailbenodiad. Dylai un aelod o'r pwyllgor ymgynghorol sy'n ynad ac un aelod nad yw'n ynad fynychu'r cyfarfod. Dylai Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol, neu ei Ddirprwy, fod ar gael i ddelio ag unrhyw ymholiadau.

5.118 Dylid cyflwyno pob argymhelliad ar gyfer ailbenodi i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol i'w cymeradwyo gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus.

**Ynadon ar y Rhestr Atodol**

5.119 Dylai cyn-ynadon sy'n dymuno dychwelyd i fod ar y Rhestr Weithredol o'r Rhestr Atodol o fewn 24 mis iddynt adael y Rhestr Weithredol lenwi **Atodiad 5E** i'w ystyried gan y Pwyllgor Ymgynghorol.

5.120 Y disgwyliad cyffredinol yw, ar yr amod nad oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod yn eu hamgylchiadau a bod hyn yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig, y gellir trosglwyddo ynadon sydd ar y Rhestr Atodol i'r Rhestr Weithredol a gallant ailddechrau eistedd heb orfod llenwi ffurflen gais neu fynychu cyfweliad ffurfiol. Dylid llenwi **Atodiad 5E** fel y gall y Pwyllgor Ymgynghorol ystyried unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau.

5.121 Er nad oes angen i'r ynad ddarparu canolwyr allanol, pan fydd yr ynad yn dymuno eistedd mewn ardal wahanol i ble'r oeddent yn eistedd pan fu i'w henw gael ei gynnwys ar y Rhestr Atodol, dylai Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad, lle mae digon o wybodaeth ar gael, anfon y ffurflen geirda safonol (**Atodiad 5B**) at Bwyllgor Ymgynghorol blaenorol yr ynad i gael geirda gan y cyn-Gadeirydd Mainc.

5.122 Dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol gyfarfod yr ynad cyn argymell y gallant ddychwelyd i'r Rhestr Weithredol i sicrhau nad oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod yn eu hamgylchiadau ac nad oes achos pryder ynghylch eu dychweliad i'r Rhestr Weithredol. Dylai un aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Ymddygiad sy'n ynad ac un aelod nad yw'n ynad fynychu'r cyfarfod, a dylai Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol, neu gynrychiolydd enwebedig, fod yn bresennol i ddelio ag unrhyw ymholiadau.

5.123 Os bydd y cyfarfod yn amlygu unrhyw bryderon penodol neu unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau, gall y Pwyllgor Ymgynghorol benderfynu trin yr ynad fel ymgeisydd newydd. Mewn achosion o'r fath, byddai'r ynad dan sylw yn gallu gofyn i'r Arglwydd Ganghellor ailystyried y penderfyniad i'w trin fel ymgeisydd newydd.

5.124 Ni ddylid gorfodi'r rhai sy'n ceisio dychwelyd i'r Rhestr Weithredol o'r Rhestr Atodol i aros i gael eu hystyried yn y rownd benodi nesaf oni bai bod amheuaeth ddifrifol ynghylch a fydd eu hangen.

**Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

5.125 Rhaid i gyn-ynadon a'r rhai sydd ar y Rhestr Atodol sy'n cael eu dewis i'w hadfer i swydd ynad neu ddychwelyd i'r Rhestr Weithredol, gael gwiriad DBS (gweler Rhan 3 o'r Cyfarwyddiadau hyn am ganllawiau) cyn i'w henw gael ei gyflwyno i Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol.

**Y broses ar ôl i unigolyn gael ei adfer i swydd ynad neu ddychwelyd i'r Rhestr Weithredol**

5.126 Dylai ynad sy'n cael ei argymell i ddychwelyd i'r Rhestr Weithredol lenwi ffurflen datganiad ac ymgymeriad newydd (**Atodiad 4C**).

5.127 Nid oes angen i ynadon gymryd y Llw Teyrngarwch neu'r Llw Barnwrol eto.

5.128 Rhaid i ynadon sydd wedi'u hadfer neu'r rhai sy'n dychwelyd i'r Rhestr Weithredol o'r Rhestr Atodol gwblhau unrhyw hyfforddiant a argymhellir gan Gadeirydd Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu / Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau Ynadon.

5.129 Ar ôl adfer neu ddychwelyd i'r Rhestr Weithredol, dylai'r uwch reolwr cyfreithiol lleol a Chadeirydd y Fainc gyfarfod yr ynad i'w croesawu i'r fainc a'u cyflwyno i brosesau lleol. Efallai y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau'r Panel Teulu / Pwyllgor Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau Ynadon yn dymuno mynychu'r cyfarfod hwn neu gyfarfod yr ynad ar wahân i drafod unrhyw anghenion hyfforddi. Dylid cael manylion am brofiad yr ynad (p'un a oeddent ar y rhestr o gadeiryddion llys cymeradwy, wedi'u hawdurdodi i eistedd yn y llys ieuenctid neu'r llys teulu, wedi gweithredu fel mentor neu werthuswr ac ati) ac a fyddent, ac o fewn pa amserlen, yn dymuno gwneud cais i ailddechrau unrhyw gyfrifoldebau blaenorol a/neu ymgymryd â rhai newydd. Rhaid i Gadeiryddion Meinciau lenwi **Atodiad 5D** fel cofnod o'r drafodaeth.

## Diweddaru gwybodaeth bersonol

5.130 Rhaid i dimau cymorth Pwyllgorau Ymgynghorol ddiweddaru cofnodion ar unwaith pan fydd ynad yn newid eu henw neu eu cyfeiriad, ac mae hyn yn cynnwys pan fydd Pwyllgorau'n cael gwybod bod ynad sydd ar y Rhestr Atodol yn symud allan o'r ardal neu i'r ardal.

5.131 Os bydd angen cysylltu ag ynadon sydd ar y Rhestr Atodol, bydd GLITEF yn defnyddio'r manylion hyn i gysylltu ag unigolion os ac yn ôl yr angen.